

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 21ain, Hydref 2019**

**PRESENNOL**

Cyng. Arwel Ll. Jones (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Hefin Martin, Delyth Algeri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Eifion Williams Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Anwen Jones, Cyng Austin Roberts

**CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 23ain, Medi, 2019.

**Materion yn codi o'r cofnodion**

**EGIN WEN, LLANDDOGED**

Cysylltodd Mr Len Jackson gyda'r Clerc gyda gwybodaeth eu bod am wneud trefniadau i osod y golau yn y maes parcio Gegin Wen cyn gynted â modd a bydd Cyngor Conwy yn gyfrifol am edrych ar ôl y golau wedyn.

**TARMACIO FFYRDD YR ARDAL**

Cadarnhaodd Cyng. Austin Roberts fod y gwaith o darnacio ar y ffordd yr Abbey heibio'r Felin wedi cael ei gwblhau.

**CAE CETYN, CAE CHWARAE'R PENTREF**

Derbyniwyd neges e-bost gan Mr a Mrs Jones, Maes yr Awel, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged yn hysbysu'r Cyngor Cymuned eu bod am dorri a thocio'r coed sydd ar y terfyn rhwng eu cartref a Chae Cetyn yn ystod yr wythnos hanner tymor mis Hydref, 2019. Byddent yn sicrhau fod cwmni proffesiynol yn cario allan y gwaith er mwyn cynnal y gwaith yn gywir. Byddent yn ymwybodol bod rhai o'r coed yn hongian uwch ffordd Trwyn Swch ac mae rhai o'r coed yn creu anawsterau o ran llinellau ffon i nifer o gartrefi. Nododd Mr a Mrs Jones fod y Cyngor Conwy wedi bod yn edrych ar y sefyllfa yn ddiweddar a thorrwyd un goeden ganddynt a'r farn mae cyfrifoldeb Mr a Mrs Jones fydd torri gweddill y coed.

**MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN**

Nododd y clerc fod angen ychydig o waith tacluso angen ei wneud ym maes parcio Cadair Ifan Goch Maenan, strimio a thorri ambell i frigau coed.

**GOLEUO'R GOEDEN NADOLIG YM MHENTREF LLANDDOGED**

Darllenwyd y clerc lythyr a dderbyniwyd gan Gwenno Ifan ar ran y Pwyllgor Cyfeillion Ysgol Llanddoged gyda chais i gael achlysur o oleuo'r goeden Nadolig fel digwyddiad yn y pentref yn ystod Ffair Nadolig yr Ysgol sydd yn cael ei gynnal ar y 6ed o Ragfyr 2019. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r pwyllgor cyfeillion wedi gweld dirywiad yn y niferoedd sy'n mynychu'r ffair yn y pentref a'u bwriad ydi adfywio'r diddordeb gan geisio ehangu'r apêl ymhlith y gymdogaeth leol yr ardal a chreu'r digwyddiad hwn yn flynyddol. Bydd y pwyllgor yn gwahodd nifer o sefydliadau eraill i'r fenter fel Merched y Wawr, Sefydliad y Merched a chael eitemau cerddorol gan aelodau'r ardal.

Trafodwyd cais a gafwyd gan y pwyllgor cyfeillion a phasiwyd i gefnogi'r achlysur yma ac i aelodau'r Cyngor Cymuned fod yn bresennol ar y noson os yn bosib cynorthwyo gyda rhoi'r goleuadau ymlaen.

Bydd Cyng. John Owen yn trefnu i archebu'r goeden Nadolig a Cyng. Alun Morris yn cynorthwyo i osod y goleuadau.

### **CYFRIF Y CADEIRYDD**

Pasiwyd drwy i'r aelodau godi eu dwylo i'r Clerc drosglwyddo £100 i gyfrif y Cadeirydd.

### **CYMERADWYO CYFRIFON Y CYNGOR SYDD YN DIWEDDU 31AIN MAWRTH 2019.**

Cymeradwyodd aelodau'r cyngor drwy godi ei dwylo'r cyfrifon y cyngor sydd diweddu 31ain Mawrth, 2019. Nododd y clerch mae dim ond ychydig o faterion bychan sydd wedi codi yn yr adroddiad gan archwiliad BDO .

### **CYNLLUNIO**

1. Cais Rhif 0/46756 – Dymchwel yn rhannol rhan unllawr yn annedd. Adeiladu estyniad deulawr Ms Catherine Ibbostson Larke Stoke, Ffordd Llanddoged, Llanddoged, Conwy LL26 0AJ

Pasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio yma.

### **CYNNAL A CHADW**

1. Twll yn y ffordd Tyddyn Frencher i lawr am Bryn Rhydd Maenan.
2. Arwyddion groesffordd heb gael eu gosod yn groesffordd Tŷ Uchaf Maenan.
3. Dwr yn sefyll yn y ffordd wrth Ffrith Isaf, Maenan.
4. Twll ar yr allt ar ffordd allt goch Llanddoged.